OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 No. 1301

Rheoliadau Cyfrifyddu Carbon (Cymru) 2018

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cofrestrfa'r DU" ("*the UK registry*") yw'r gofrestrfa a sefydlwyd ar gyfer y Deyrnas Unedig yn unol â'r Rheoliad Cofrestrfeydd;

ystyr "Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd" ("*the UNFCCC*") yw'r Confensiwn a lofnodwyd yn Efrog Newydd ar 9 Mai 1992;

mae i "cyfrif credyd Cymru" ("*the Welsh credit account*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 4(1);

mae i "gweinyddwr y gofrestrfa" yr ystyr a roddir i "the registry administrator" yn rheoliad 8(1) o Reoliadau'r Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2012(**1**);

ystyr "Protocol Kyoto" ("*Kyoto Protocol*") yw Protocol Kyoto Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd a lofnodwyd yn Kyoto ar 11 Rhagfyr 1997;

ystyr "y Rheoliad Cofrestrfeydd" ("*the Registries Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 389/2013 sy'n sefydlu Cofrestrfa yr Undeb yn unol â Chyfarwyddeb 2003/87/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, Penderfyniadau Rhif 280/2004/EC a Rhif 406/2009/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor a diddymu Rheoliadau'r Comisiwn (EU) Rhif 920/2010 a Rhif 1193/2011(**2**).

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "dileu" uned garbon yw dileu'n wirfoddol yn unol â'r Rheoliad Cofrestrfeydd, a chaiff uned ei "dileu" os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i weinyddwr y gofrestrfa ei throsglwyddo i'r cyfrif o'r enw'r "Cyfrif Dileu Gwirfoddol" yng nghofrestrfa'r DU.

(**1**) O.S. 2012/3038.
(**2**) O.J. Rhif L 122, 3.5.13, t. 1.